

Adnoddau ar gyfer Gŵyl Ddewi, Nawddsant Cymru

Yna dywedodd Iesu wrth ei ddisgyblion: “Os myn neb ddod ar fy ôl i, rhaid iddo ymwadu ag ef ei hun a chodi ei groes a’ m canlyn i”. Mathew 16: 24

Yr wyf wedi ymdrechu’r ymdrech lew, yr wyf wedi rhedeg yr yrfa i’r pen, yr wyf wedi cadw’r ffydd.
II Timotheus 4: 4:7

“Frodyr a chwirydd, byddwch lawen a chedwch eich ffydd a’ch cred a gwnewch y pethau bychain a glywsoch ac welsoch gennyf fi. A minnau a gerddaf y ffordd y aeth ein hynafiaid iddi, ac iach i chwi.”
Geiriau olaf Dewi Sant
Buchedd Dewi

Darlleniadau ar gyfer y Cymun Bendigaid:

Ecclesiasticus 15:1-6
neu Jeremeia 1:4-10
Salm 16: 3, 5-8
I Thesalonïaid 2: 2b-12
Mathew 16:24-27

Darlleniadau ar gyfer y Foreol neu’r Hwyrrol Weddi

Salm 92
Eseciel 2:1-7
II Timotheus 4:1-8

Colect ar gyfer Gŵyl Ddewi

Dduw ein Tad,
rhoddaist Dewi Sant i bobl Cymru,
i gynnal y ffydd.
Wedi ein hannog gan ei esiampl,
bydded i ni lynu’n llawen wrth y pethau
sy’n arwain at fywyd tragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
i’r hwn gyda thi a’r Ysbryd Glân
y byddo’r holl anrhydedd a gogoniant,
yn awr ac am byth. **Amen.**

Gweddï ôl-Gymun

Hollalluog Dduw
deffra ynom sêl dy was Dewi
fel y dilynol di ag unplygrwydd calon,
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Resources for the Feast of Saint David, Patron Saint of Wales

Then Jesus told his disciples, 'If any want to become my followers, let them deny themselves and take up their cross and follow me. Matthew 16: 24

*I have fought the good fight, I have finished the race, I have kept the faith.
II Timotheus 4: 4-7*

"Brothers and sisters, be joyful and keep your faith and your creed and do the little things that you heard and seen of me. As for me, I shall walk the way which our forebears went.

*The last words of Saint David
The Life of David*

Readings for the Eucharist:

Ecclesiasticus 15:1-6
or Jeremiah 1:4-10
Psalm 16: 3, 5-8
I Thessalonians 2: 2b-12
Matthew 16:24-27

Readings for Morning or Evening Prayer

Psalm 92
Ezekiel 2:1-7
II Timothy 4:1-8

Collect for Saint David's Day

God our Father,
you gave Saint David to the people of Wales
to uphold the faith:
encouraged by his example,
may we joyfully hold fast to the things
which lead to eternal life;
through Jesus Christ our Lord,
to whom with you and the Holy Spirit
be all honour and glory,
now and for ever. **Amen.**

Post Communion Prayer

Almighty God,
awaken in us the zeal of your servant David
that we may follow you in singleness of heart;
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Ymbiliau addas

Dywedodd Dewi, "Byddwch lawen, cedwch eich ffydd a'ch cred, a gwnewch y pethau bychain.

Heddiw wrth inni gofio Dewi, nawddsant Cymru, gweddiwn ar Dduw sy'n codi pobl ymhob cenhedlaeth i fod yn dystion ffyddlon i'w fab, ein Harglwydd Iesu Grist.

Cynorthwya'r Eglwys i gerdded yn llawen ac yn ffyddiog yn llawenydd ei ffydd a'i chred yn yr efengyl. Nertha bawb sy'n arwain bywyd yr eglwys....Wrth inni gyhoeddi'r efengyl i'r genhedlaeth hon helpa ni i wneud y pethau bychain sy'n dwyn goleuni a chariad Crist i fywydau pobl eraill.

Arglwydd, yn dy drugaredd.

Gwrando ein gweddi.

Wrth inni ymhyfrydu yn ein treftadaeth gyfoethog a'r diwylliannau amrywiol sy'n rhan o wead y Cymru gyfoes, gofynnwn am dy arweiniad a dy ddoethineb ar bawb sy'n lliwio bywyd y genedl hon, dros aelodau Senedd Cymru ac arweinyddion y cynghorau lleol fel y cynyddir dealltwriaeth ac undod oddi mewn i'n cymunedau i weithio dros lles pawb.

Arglwydd, yn dy drugaredd.

Gwrando ein gweddi.

Yr wyt ti wedi creu amrywiaeth o genhedloedd, pobl ac ieithoedd ar y ddaear, ac eto yr ydym oll yn rhan o'r un ddynoliaeth wedi'n creu ar dy lun dy hun. Ymunwn â llef dy blant sy'n dioddef o ganlyniad i ryfel....newid hinsawdd....trychinebau naturiol.... Boed i symlrwydd bywyd Dewi ein hysbrydoli i fyw yn gytûn â'n gilydd a'r greadigaeth gyfan.

Arglwydd, yn dy drugaredd.

Gwrando ein gweddi.

Yn ein hymwneud â'n gilydd ysbrydola ni i fod yn dystion loyw o'r llawenydd sydd yn eiddo i ni oherwydd ein hymddiriedaeth yn dy Fab Iesu Grist ymhlith aelodau o'n teuluoedd, ein cymdogion a'n cyd-weithwyr.

Arglwydd, yn dy drugaredd.

Gwrando ein gweddi.

Yn dilyn yn ôl traed dy Fab Iesu Grist, aeth Dewi Sant oddi amgylch gan ddangos gofal dros bawb a oedd yn dioddef. Bendithia bawb sy'n gweithio yn ein gwasanaeth iechyd a thros bawb sydd gofalu am eraill.

Cofiw'n ger dy fron bawb sy'n dioddef, y diwrnod hwn, mewn corff, meddwl neu ysbryd....gan weddio ar i ti eu hachub a'u cadw yn dy gariad.

Arglwydd, yn dy drugaredd.

Gwrando ein gweddi.

Gwrnado arnom wrth inni gofio'r rhai sydd yn y bywyd hwn wedi cadw'r ffydd, ac wedi ymdrechu'r ymdrech lew, ac wedi rhedeg yr yrfa i'r pen, ac sydd wedi marw yn dy heddi di.... Boed iddynt orffwys yn dy ofal tragwyddol.

Arglwydd, yn dy drugaredd.

Gwrando ein gweddi.

Gan ymlawenhau yng nghymundeb Dewi Sant a'r holl saint, cyflwynwn ein hunain a'r greadigaeth gyfan i'th gariad di-ffael.

Dad trugarog
derbyn y gweddïau hyn
er mwyn dy Fab,
ein gwardwr Iesu Grist. Amen.

Suitable Intercessions

Saint David said: "Be joyful, keep your faith and your creed, and do the little things".

Today, as we remember David, patron saint of Wales, let us pray to God who calls people in every generation to be faithful witnesses to his son, Jesus Christ our Lord.

Help your church to walk joyfully and hopefully in her faith in the gospel. Strengthen those who lead the church.... As we proclaim the good news in this generation help us to do the little things that bring the light and love of Christ to the lives of others.

Lord, in your mercy.

Hear our prayer.

As we rejoice in our rich heritage and the cultural diversity that is a part of the fabric of Wales today, we ask for your guidance and wisdom on all who influence the life of this nation; for the members of the Welsh Parliament and the leaders of our local councils so that understanding and unity within our communities may increase and work towards the common good.

Lord in your mercy.

Hear our prayer.

You have created a variety of nations, peoples and languages on the earth, and yet we are all a part of the same humanity created in your own image. We join with the cry of all your children who suffer because of war...climate change...natural disasters.... May the simplicity of David's life inspire us to live in harmony with one another and the whole of creation.

Lord in your mercy.

Hear our prayer.

In our daily dealings with one another, help us to be faithful witnesses to the joy we have in our trust of your Son, Jesus Christ amongst the members of our families, neighbours and work colleagues,

Lord in your mercy.

Hear our prayer.

Following in the foot-septs of your Son Jesus Christ David went about showing care and concern for all who suffered. Bless all who work in our National Health Service and for all who care for others. We hold before you all who suffer this day in body, mind or spirit.....praying that you will keep them safe in your love.

Lord, in your mercy.

Hear our prayer.

Hear us as we remember those who in this life have kept the faith, and have fought the good fight, and have finished the race and died in your peace.... May they rest in your eternal care.

Lord, in your mercy.

Hear our prayer.

Rejoicing in the fellowship of Saint David and all your saints, we commend ourselves and the whole creation to your unfailing love.

Merciful Father,

accept these prayers

for the sake of your Son,

our Saviour Jesus Christ. Amen.

Emynau Cymraeg : Welsh Hymns

888.D

**1. Anfeidrol Iôr, o’th gariad mawr,
Clyw lef dy blant, gad inni’n awr
Nesáu mewn ffydd at d’orsedd wen;
Ddeffrown y wawr â pheraidd gân,
Cydnued telyn Cymru lân
Ag aur delynau’r nef uwchben.**

**2. Clodforwn di am gadw’n ir
Dy Eglwys sanctaidd yn ein tir,
Diodaist hi ag afon Duw;
Un Eglwys ar un sylfaen gref,
Un trwy’r holl ddaear, un trwy’r nef –
Ofnadwy lu banerog yw.**

**3. Ein cysgod fu dan groes a chur,
Ein hundeb mewn athrawiaeth bur,
Trwy’r oesau gynt, yng Nghymru wen:
Boed Duw ein Dewi’n Dduw i ni,
Boed Cymru eto’n eiddot ti,
Nes treulio oesau’r byd i ben.**

**4. Cod eto gewri yn ein plith,
Defnydda arnom nefol wlith,
Adfywia dy wywedig blant;
Cysegra’n genau ni i’th glod,
Pâr, Iôr, i Eglwys Dewi fod
Yn lân fel bywyd gwyn ei Sant.**

J. Holt Newell

Emynau’r Eglwys 204

Tôn Addas/ Suitable hymn tune: Nashville (Salm 69)

87.87.D

1. Mawl i'th Enw, Arglwydd grasol,
Am dy was, goleuni'n tir:
Pan deyrnasai nos anwybod,
Nos ddi-wawr yr oesau hir,
Gair dy ras a draethodd Dewi,
A'th gyfiawnder fel y môr;
Am Dywysog Ffydd i Gymru,
Mawl i'th Enw, sanctaidd lôr.

2. Mawl i'th Enw, Arglwydd grasol,
Am dy was, a'r gadarn Ffydd
Ddysgaist iddo yn dy gariad,
Ddysgodd yntau yn ei ddydd;
Diolch am yr hael arweinydd
A fu'n agor euraid ddôr
Myrdd bendithion gorau'r nefoedd –
Mawl i'th Enw, sanctaidd lôr.

3. Mawl i'th Enw, Arglwydd grasol,
Am dy was, a phawb o'r Saint,
Sy'n gwregysu'n gwlad â gweddi
Ac eiriolaeth er ein braint:
Coffa'u henwau a'u gweithredoedd
Mae'r mynyddoedd hen a'r môr;
Am y llu gwroniaid duwiol
Mawl i'th Enw, sanctaidd lôr.

4. Mawl i'th Enw, Arglwydd grasol,
Am y meini bywiol hyn
Yn dy Eglwys, lân adeilad,
Brynaist ar Galfaria fryn;
Dyro inni wres eu cariad,
A'u diysgog ffydd yn stôr,
A dyrchafwn yn wastadol
Fawl i'th Enw, sanctaidd lôr.

A. S. Thomas (Anellydd)

Tonau addas/ Suitable hymn tunes: Blaenwern, Hyfrydol, Düsseldorf

87.87.67

**1. Cofia gwlad Benllywydd tirion,
Dy gyfiawnder fyddo'i grym;
Cadw hi rhag llid gelynion –
Rhag ei beiau'n fwy na dim;
Rhag pob brad, nefol Dad,
Taena d'adain dros ein gwlad.**

**2. Yma mae beddrodau'n tatau,
Yma mae ein plant yn byw;
Boed pob aelwyd dan dy wenau,
A phob teulu'n deulu Duw:
Rhag bob brad, nefol Dad,
Cadw di gartrefi'n gwlad.**

**3. Gwna Sabothau'n ddyddiau'r nefoedd
Yng ngoleuni d'eiriau glân;
Dyro'r gwllith i'n cymanfaoedd –
Gwna ein crefydd fel ein cân:
Nefol Dad, boed mawrhad
Ar d'Efengyl yn ein gwlad.**

H. Elvet Lewis (Elfed)

Emynau'r Llan 212

Tonau addas/ Suitable hymn tunes: Gweddi Wladgarol, Rheidol

76.76

**1. Tydi sy'n anfon gweision
I'r maes i daenu'r had,
O pâr i lafur Dewi
Ddwyn cynnyrch yn ein gwlad.**

**2. Tydi a roes i Gymru
Yn nawdd ddewisol sant,
O dyro eto ddeuparth
O'i Ysbryd ar dy blant.**

**3. Tydi sy'n rhoi i'n gofal
Drysorau'n heniaith wiw,
O cadarnha'n diofryd
Tra bôm, i'w cadw'n fyw.**

**4. Tydi sy'n cynnal gobaith
Am weled tecach dydd,
Meddianna di ein calon
Â'th rym i gadw'r ffydd.**

T. Elfyn Jones

Emynau'r Llan 213

Tonau Addas/ Suitable Hymn Tunes: Kocher, St Alphege

87.87.D

1. Molwn di, O Dduw ein tadau,
Uchel wyl o foliant yw;
Awn i mewn i'th byrth â diolch,
Ac offrymwn ebyrth byw.
Cofiwn waith dy ddwylo arnom
A'th amddiffyn dros ein gwlad;
Tithau, o'th breswylfa sanctaidd,
Gwêl a derbyn ein mawrhad.

2. Ti â chariad Tad a'n ceraist
Yn yr oesoedd bore draw,
O dywyllwch i oleuni
Y'n tywysaist yn dy law;
Cawsom di ym mhob cenhedlaeth,
Fel dy enw'n gadarn lôr,
Cysgod gwell na'r bryniau uchel,
Ac ne chedyrn donnau'r môr.

3. Cudd ni eto dan dy adain,
A bydd inni'n fur o dân;
Tywys di ein tywysogion,
Megis gynt, â'th Ysbryd Glân.
Pâr i'n cenedl annwyl rodio
Yn dy ofn o oes i oes,
Gyda'i ffydd yng ngair y cymod,
Gyda'i hymffrost yn y Groes.

Eliseus Williams (Eifion Wyn)
(Emynau'r Llan 214)

Tonau Addas/ Suitable Hymn tunes: Düsseldorf, Bleanwern, Hyfrydol

76.76.D

1. Tydi, O Dduw, a beraist
Dy foliant ym mhob iaith,
Ac ym mhob gwlad a godaist
Broffwydi at dy waith;
Clyw foliant gwlad y bryniau
Ar dafod ac ar dant,
Am anfon atom ninnau
Golomen Dewi Sant.

2. Trwy Gymru cerddodd d'Ysbryd
O'i mynydd hyd ei môr,
Disgleiria'i blodau hyfryd
Yn llwybrau saint yr lôr;
O luniwr glân yr eirllys
A chennin aur y pant,
Gwna di'n bywydau'n ddilys
Fel buchedd Dewi Sant.

3. Y pethau bychain hynny
A welsom ganddo ef,
O dyro ras i'w dysgu
Yn awr, er teyrnas nef;
Rhag awel bêr Glyn Rhosyn
Ffoed niwl pob pleidiol chwant
Nes uno Cymru'n rhywyn
Brawdoliaeth Dewi Sant.

4. Rhoist lamp y gair i arwain
Ein gwlad trwy'r hinos ddu,
Ar weddi'r saint bu d'adain
Tros fywyd Cymru fu;
O Arglwydd Dduw ein tadau,
Bydd eto'n Dduw ein plant,
A chadw'n Cymru ninnau
Yn Gymru Dewi Sant.

A.E. Jones (Cynan)
Emynau'r Llan 215

Tôn addas/ suitable hymn tune: Penlan

10.10.10.10.10.10

**1. Dros Gymru'n gwlad, O Dad, dyrchafwn gri,
Y winllan wen a roed i'n gofal ni;
D'amddiffyn cryf a'i cadwo'n ffyddlon byth,
A boed i'r gwir a'r glân gael ynnddi nyth;
Er mwyn dy Fab a'i prynodd iddo'n hun,
O crea hi yn Gymru ar dy lun.**

**2. O deued dydd pan fo awelon Duw
Yn chwythu eto dros ein herwau gwyw,
A'r crindir cras dan ras cawodydd nef
Yn erddi Crist, yn ffrwythlon iddo ef,
A'n heniaith fwyn â gorfoleddus hoen
Yn seinio fry haeddiannau'r addfwyn Oen.**

*Lewis Valentine
Emynau'r Eglwys 216*

Tôn/ Hymn Tune: Finlandia

87.87.D

1. Arglwydd, trefni mewn doethineb

Ein tymhorau is y rhod;
Daw i ben dy fythol arfaeth
Er pob newid sydd yn bod:
Ti ddewisaist Wlad y Bryniau,
Ddyddiau tywyll a di-wawr,
I egluro dy fwriadu
Er dy glod a'th Enw mawr.

2. Hyd ein glannau pell a olchir

O'r gorllewin gan y lli
Yr anfoneist ti o'th gariad
Sôn am Groesbren Calfari;
Dros yr Eglwys Lân Gatholig
Collwyd chwys a gwaed dy blant,
A disgleirio'n rhôl dy arwyr
Y mae enw Dewi Sant.

3. Parchwn, Arglwydd, goffadwriaeth

Pawb o Seintiau Cymru wen,
Yr Esgobion a'r Offeiriad
A'r Merthyri hwnt i'r llen:
Dewi, Dyfrig, Deiniol, Teilo –
Dewr y safent tros y gwir,
Bu eu pader, bu eu penyd
Yn sancteiddio erwau'n tir.

4. Mae dy fwriad yn goroesi

Holl ddamweiniau daear lawr;
Mae dy Eglwys Lân yn aros
Byth yn dyst o'th gariad mawr:
Dyro nerth a gweledigaeth,
Arglwydd, yn dy waith o hyd,
A'th ewyllys di a wneler
Yn yr Eglwys ar holl fyd.

Esgob T Rees

Cyf. E. Jones (Isylog)

Tonau addas/ Suitable Hymn tunes: Blaenwern, Hyfrydol

87.87.47

**1. Am bob sant fu'n tramwy'n daear
Ym mhlygeiniol oesau Cred,
Rhoddwn foliant i ti, Arglwydd,
Ac aed byth eu bri ar led.
Hwy a glymodd
Gymru'n bron, wrth bren y Groes.**

**2. Hwy a'n dysgodd am y preseb,
Am yr ing a'r trydydd dydd,
Ac a ddug i werin ofnog
Waredigaeth trwy y Ffydd;
Mae eu llannau
Eto'n gartre'r dwyfol rin.**

**3. Hwy a'n dysgodd trwy eu buchedd
A'u pregethu'r ffordd i fyw:
Gwneuthur barn, mawrhau trugaredd,
Rhodio'n isel gyda Duw.
Trwy eu hanes
Galwant eto i lwybrau'r nef.**

**4. Arnom deued heddiw ddeuparth
O'u sancteiddrwydd llachar hwyl,
Fel bo saint i'w gweled eto
Yn cyniwair ym mhob plwy',
A'u dengarwch
Yn corlannu Cymru i Grist.**

John Edward Williams

Emynau'r Llan 236

Tôn/ Hymn Tune: Rhondda

Diweddiadau

Dad Hollalluog,
adeiledaist dy Eglwys
trwy gariad ac ymgysgriad dy saint:
ysbrydola ni i ddilyn esiampI Dewi,
a goffawn heddiw,
fel y bo inni 'r diwedd lawenhau gydag ef
o weld dy ogoniant;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

**Gras ein Harglwydd Iesu Grist,
a chariad Duw,
a chymdeithas yr Ysbryd Glân
a fo gyda ni oll byth bythoedd. Amen.**

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.
A hefyd gyda thi.

Bendithiwn yr Arglwydd.
I Dduw y bo'r diolch.

Gweddi Ddyddiol 2009

Endings

Almighty Father,
you have built up your Church
through the love and devotion of your saints:
inspire us to follow the example of David,
whom we commemorate today,
that we may at last rejoice with him
in the vision of your glory;
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

**The grace of our Lord Jesus Christ,
and the love of God,
and the fellowship of the Holy Spirit,
be with us all evermore. Amen.**

The Lord be with you.
And also with you.

Let us bless the Lord.
Thanks be to God.

Daily Prayer 2009